CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

**Cyngor Llyfrau Cymru**
Adran Datblygu Cyhoeddi

---

**CANLLAWIAU**
**CYLCHGRONAU DIWYLLIANNOL SAESNEG**

## 1 AMCANION

Mae'r cynllun yn ariannu ystod o gylchgronau diwylliannol Saesneg, sy'n cynnwys ysgrifennu da, newyddiaduraeth o ansawdd uchel, adolygiadau a thrafod ystod o bynciau.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn gweinyddu Cynllun Grantiau ar gyfer Cylchgronau Cymraeg a Chynllun Cylchgronau Bach ar gyfer cyhoeddiadau yn Saesneg. Ceir canllawiau ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn.

## 2 CYMHWYSTER

***Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?***
Rhaid i gyhoeddwyr sy'n derbyn grantiau o £8,000 a mwy fod yn gyrff corfforedig cyfreithiol; byddant fel arfer yn gwmnïau di-elw cyfyngedig trwy warant. Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grantiau llai fod â chyfrif banc ar wahân a threfniadau priodol ar gyfer rheolaeth ariannol a chyffredinol.

***Pa gylchgronau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?***
Ystyrir ceisiadau gan gyhoeddwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn un o'r meysydd canlynol:

<u>Cyllid ar gyfer datblygu</u>
Cyllid sbarduno ar gyfer mentrau newydd, arloesol sy'n cynnwys ysgrifennu da, deniadol am un cyfnod trwydded.

<u>Cyllid ar gyfer cylchgronau cyffredinol</u>
Cylchgronau cyffredinol yn cynnwys ysgrifennu da a newyddiaduraeth o ansawdd uchel, adolygiadau a thrafod o bob math. Dylai cylchgronau gynnwys sylw i amrywiaeth o bynciau. Gallai meysydd pwnc posibl gynnwys materion cyfoes, gwleidyddiaeth, hanes, economeg, y celfyddydau (e.e. celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, drama, dawns a llenyddiaeth), diwylliant (gan gynnwys diwylliant poblogaidd), y cyfryngau, yr amgylchedd, chwaraeon a hamdden.

<u>Cyllid ar gyfer cylchgronau llenyddol</u>
Cylchgronau llenyddol o ansawdd da wedi'u hysgrifennu'n ddifyr ac sy'n ymdrin ag un neu fwy o'r meysydd canlynol fel eu prif ffocws: ffuglen fer, barddoniaeth, ffeithiol greadigol, adolygiadau/beirniadaeth lenyddol.

Nid yw'r cynllun yn cefnogi:

- cylchgronau bychain na fyddai'n gwerthu mwy na 400 chopi (gweler canllawiau'r Cynllun Cylchgronau Bach ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg):
- cylchgronau addysgol neu gyfnodolion academaidd;
- cylchgronau a gyhoeddir gan fudiadau a chymdeithasau, oni bai bod iddynt ddiddordeb y tu allan i aelodaeth y mudiad;
- cylchgronau lleol eu hapêl.

## 3 MEINI PRAWF ASESU

Cloriennir y rhai sydd eisoes yn dal trwydded yn ôl eu record profedig, eu cyflawniadau o fewn y y drwydded ddiwethaf, a'u cynigion am y cyfnod ariannu nesaf. Cloriennir ceisiadau gan ymgeiswyr newydd a rhai sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd yn ôl y meini prawf cyffredinol canlynol:

- safon debygol y cynnwys a safonau golygyddol, ar sail rhifynnau blaenorol/rhifynnau peilot/amlinelliad o'r cynnwys a'r polisi golygyddol a ddisgrifir yn y cais;
- ymrwymiad yr ymgeisydd i gefnogi tirlun cyhoeddi amrywiol a chynhwysol, o ran polisi golygyddol ac ar lefel bwrdd
- ymrwymiad yr ymgeisydd i gefnogi datblygu sgiliau, er mwyn sicrhau ecosystem gyhoeddi iach
- gallu'r ymgeisydd i ddigolledu cyfranwyr
- parodrwydd yr ymgeisydd i gefnogi deunydd a allai ddenu ysgrifenwyr a darllenwyr newydd;
- safon debygol y dylunio a'r cynhyrchu, ar sail rhifynnau blaenorol/ rhifyn peilot/ brasgynllun;
- gallu'r cyhoeddwr i farchnata a dosbarthu'r cylchgrawn trwy Gymru a, lle y bo'n briodol, y tu hwnt i Gymru, ar sail cynllun marchnata manwl;
- gallu'r cyhoeddwr i gadw at amserlen gyhoeddi;
- eglurder swyddogaeth y cylchgrawn mewn perthynas â chylchgronau eraill. Bydd y Cyngor yn ystyried a fyddai cylchgrawn a gynigir yn debyg o lenwi bwlch yn y ddarpariaeth *neu* berfformio'n fwy effeithiol na chylchgrawn cyfredol;
- gallu'r ymgeisydd i ddenu nawdd, sbonsoriaeth a chyfraniadau o fath arall o ffynonellau eraill;, ac arywio ffynonellau refeniw;
- targedau gwerthiant ar gyfer cyfnod y drwydded (trwy danysgrifiadau a siopau);
- gwerth am arian.
- Y gallu I ddatblygu cynnwys mewn sawl fformat (e.e. print, y we, ap, e-rifyn ayb.)

## 4 Y GRANT

- Mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer y cynllun hwn oddeutu £175,000. Rhestrir y grantiau unigol a ddyfarnwyd yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor Llyfrau.
- Cynigir y grantiau ar ffurf trwyddedau am bedair blynedd ar y tro, yn amodol ar barhad y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Gellir adnewyddu'r grantiau trwy broses ymgeisio cystadleuol.
- Anelir lefel y grant ar gyfer cylchgronau cyffredinol a llenyddol at gyrraedd cymhareb gerio o 2:1 (h.y. byddai cyllid Cyngor Llyfrau Cymru yn darparu hyd at ddwy ran o dair o gyfanswm incwm y cylchgrawn, gydag o leiaf traean o'r incwm i'w gynhyrchu gan gyhoeddwr y cylchgrawn trwy werthiant, refeniw hysbysebu, nawdd, cyfraniadau o fath arall ac ati. Am ganllawiau ar gyfraniadau o fath arall gweler atodiad 1 y ddogfen hon). Mae cyllid ar gyfer teitl unigol yn debygol o amrywio rhwng £2,500 a thua £55,000 a bydd symiau wedi'u capio yn cael eu pennu ar gyfer pob maes ariannu (gweler y ddogfen gwahoddiad i dendro am ragor o wybodaeth).

## 5 PRYD A SUT I WNEUD CAIS

Gellir cael canllawiau a ffurflenni cais o'r cyfeiriad o'r cyfeiriad ebost ar ddiwedd y ddogfen hon. Fel arfer disgwylir i gynigion gynnwys adrannau naratif a chyllidebol, tystiolaeth ariannol, a deunydd sampl. Rhaid cyflwyno'r ceisiadau ar y ffurflenni priodol, a dylid ateb pob cwestiwn yn llawn.

Daw'r trwyddedau cyfredol i ben ddiwedd Mawrth 2024. Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n hysbysebu am geisiadau newydd yn 2023 ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024–Mawrth 2028 gan gyhoeddi dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, ynghyd ag unrhyw ganllawiau ychwanegol. Ystyrir y ceisiadau gan yr Isbwyllgor Grantiau Cyhoeddi Saesneg. Gwahoddir ymgeiswyr i fynychu cyfweliad gan yr isbwyllgor.

## 6 TALU'R GRANTIAU

Fel arfer, telir grantiau cylchgronau ar ddechrau pob chwarter mewn symiau cyfartal. Gellir hawlio'r grant trwy anfon pedwar copi o bob rhifyn i'r Adran Datblygu Cyhoeddi neu trwy hysbysu'r Adran Datblygu bod rhifyn digidol newyd dar gael a sicrhau mynediad i'r rhifyn hwnnw.

## 7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gofyn am ffigurau gwerthiant ac adroddiadau eraill yn flynyddol. Bydd hefyd yn cynnal cyfarfod â phob deilydd trwydded er mwyn adolygu eu perfformiad a'u targedau.

**Mae ffurflenni cais a chyngor pellach ar gael gan yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn English.Grants@books.wales.**

Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau hyn ar gael.
An English-language version of these guidelines is available.

Atodiad 1

**Canllawiau ar gyfer Cyfraniadau o Fath Arall**

Bydd cyfraniadau o fath arall yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu incwm yr ymgeisydd a phenderfynu ar lefel y grant y gellir ei roi yn unol â meini prawf y gymhareb ariannu cyfatebol 2:1 sy’n ofynnol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r canllawiau canlynol wrth gyfrifo gwerth eu cyfraniadau o fath arall. Bydd angen i chi ddweud wrthym sut yr ydych wedi cyfrifo hyn.

- Gallai cyfraniadau gynnwys cyfrifiaduron neu offer arall a roddwyd; defnyddio eiddo a roddwyd yn benodol, a darparu gofod swyddfa a chostau cysylltiedig a ddarperir gan y sefydliad cynnal. Dylid prisio'r rhain fel a ganlyn: dylai offer a roddir yn rhodd gael ei gynnwys ar bris y farchnad a hysbysebir os yw'n newydd, neu ar amcangyfrif rhesymol o'r pris ail law os nad yw’n newydd. Dylid cyfrifo defnydd eiddo a ddarperir ar gyfer y sefydliad yn ôl y gwerth marchnad priodol; a dylid cyfrifo gofod swyddfa a chostau cysylltiedig megis taliadau ffôn, llungopïo ac ati yn ôl gwerth priodol y farchnad. Os caiff ei rannu â defnyddwyr eraill dylid rhannu'r gost yn gymesur.

- Bydd y cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i ddangos sut y mae wedi cyfrifo gwerth marchnad yr eitemau a rentir neu a brynwyd: Dylech ddarparu tystiolaeth o werth y farchnad, megis cyfraddau cyhoeddedig ar gyfer llogi eiddo, neu restr brisiau ar gyfer offer a gwasanaethau.

- Gall gostyngiadau cyflenwyr gael eu cynnwys yn cyfraniadau o fath arall pan fyddant yn dangos cefnogaeth amlwg i'r sefydliad, er enghraifft gostyngiad pris argraffu gan gwmni argraffu o Gymru a roddir yn benodol i gydnabod rôl y sefydliad yn niwylliant Cymru. Ond rhaid i ddisgowntiau sy'n cyd-fynd â'r maen prawf hwn gael eu cadarnhau gan y cyflenwr fel disgownt sy'n benodol i'r sefydliad fel cyfraniad, yn hytrach na gostyngiad masnach safonol.

- Gellir cyfrifo cyngor ac arbenigedd arbenigol a ddarperir yn rhad ac am ddim a mathau eraill o lafur gwirfoddol a roddir i'r sefydliad fel cyfraniadau o fath arall. Gall cyfraddau cyfraniadau llafur gwirfoddol amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar natur y gwaith a wnaed.

- Dylech gyfrifo'r gyfradd yn ôl y gwerth marchnad priodol ar gyfer yr hyn y byddai'n ei gostio i chi logi’r llafur neu'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi. Bydd angen i ni weld tystiolaeth glir o sut yr ydych wedi cyrraedd y cyfraddau yr ydych yn eu defnyddio. Gall eich tystiolaeth gynnwys cyfraddau dyddiol cyhoeddedig ar gyfer ymgynghoriaeth neu gyngor cyfreithiol neu amcangyfrifon o gyflogau rhesymol ar gyfer y math o waith a roddir, er enghraifft dylid cyfrifo cyfradd intern ar isafswm cyflog i adlewyrchu natur weinyddol sylfaenol y rôl. Os yw intern yn cael ei gyflogi fel quid pro quo gyda sefydliad cynnal, ni ddylid ystyried hyn fel cyfraniadau o fath arall, oherwydd yn yr achos hwn, mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r cyfrannwr.

- Ni ddylai aelodau bwrdd cwmnïau cyfyngedig trwy warant (dosbarthiad dielw) dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu dyletswyddau disgwyliedig fel aelod bwrdd. Os bydd aelod o'r bwrdd yn rhoi llafur neu wasanaethau gwirfoddol, yn dechnegol bydd yn derbyn swm ariannol am y llafur neu'r gwasanaeth hwnnw gan fod ganddo werth ariannol. Felly, dim ond os yw’n waith y tu hwnt i’w dyletswyddau disgwyliedig arferol fel aelod bwrdd y gellir cyfrif unrhyw lafur neu wasanaethau gwirfoddol a roddwyd gan aelodau bwrdd cwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac y gellir dangos yn glir nad yw’n cynrychioli gwrthdaro buddiannau.

Mae fersiwn Saesneg o’r canllawiau hyn ar gael.
An English-language version of these guidelines is available.